COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD HYBRID IN COMMITTEE ROOMS 2&3 AND REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2024 09:30

Yn bresennol

Cynghorydd N Farr – Cadeirydd

A R Berrow
H J David
J Gebbie
J C Spanswick
E D Winstanley

Yn Bresennol yn Rhithiol

J P D Blundell
M J Evans
D M Hughes
RL Penhale-Thomas
A Wathan
AJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Goode, HM Williams a Claire Marchant

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaethau a CSP |
| Wendi Briggs | Rheolwr VAWDASV |
| Philip O'Brien | Rheolwr Grŵp - Trawsnewid, Gwasanaethau Cwsmer a Phartneriaethau |
| Zoe Edwards | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldebau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Cyhoeddodd y Cyng RL Penhale ddatganiad o fuddiant yn eitem 4, gan ei fod yn cael ei gyflogi'n llawn-amser gan elusen ar gydraddoldebau.

Cyhoeddodd J Spanswick ddatganiad o fuddiant yn eitem 4, gan fod aelod o'r teulu'n gweithio yn yr uned a drafodir.

## 39. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldebau dyddiedig 08/11/ 2023 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Mawrth 2024 |

## 40. Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Rheolwr Partneriaethau a CSP ar y gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth Camdriniaeth yn y Cartref, a'r wybodaeth a gasglwyd gan y tîm mewnol a gan bartneriaid lleol, i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith Llywodraeth Cymru ac amcanion Cwm Twf Morgannwg. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu ystod o bynciau ynghylch achosion o drais yn seiliedig ar rywedd, camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol, dulliau atal yn sgil hynny a dadansoddiad o'r gwasanaethau sy'n delio â'r materion hyn.<br><br>Cyflwynodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br>• Gwaith ynghlwm ag atgyfeiriad gyda theulu a chyd-ddibynyddion<br>• Deilliannau gweithred ac arolwg posib o'r canlyniadau<br>• Cydgordio gyda chydweithwyr ynghylch opsiynau tai<br>• Amlder salwch yn y gwasanaeth<br>• Sicrhau bod dioddefwyr gwrywaidd yn cael digon o gymorth<br>• Gwaith ymgysylltu â Heddlu De Cymru a gweithwyr iechyd proffesiynol<br><br>Bu i'r Rheolwr Partneriaethau a CSP a'r Rheolwr VAWDASV ddelio â'r cwestiynau hyn, gan gynnwys cytuno i anfon e-bost ynghylch data salwch i'r Cadeirydd ei rannu ac i drafod gwelliannau posib ynghylch dioddefwyr gwrywaidd yn y grŵp rhanbarthol o'r CTM. Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd aelodau o Heddlu De Cymru a chydweithwyr iechyd i'r adolygiad nesaf o'r VAWDASV.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor, gan ddiolch i'r tîm am eu gwaith diflino ac am gefnogi aelodau bregus o'r gymuned. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Mawrth 2024 |

**41. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 20 Mawrth 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:57.